



**cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future**

DATGANIAD I'R WASG

Ionawr 2010

Tai Cymdeithasol yn fusnes mawr I Barclays!

Mae Bancio Corfforaethol Barclays wedi ariannu'r trosglwyddiad gwirfoddol diweddaraf ar raddfa fawr yng Nghymru i greu Tai Ceredigion, corff tai di-elw a chanddo amcanion elusennol. Bydd y pecyn cyllid £40 miliwn yn ymgorffori trosglwyddo 2229 o dai o berchenogaeth y cyngor i'r cwmi sydd newydd ei gorffori.

Mae'r gymdeithas tai newydd ei ffurfio, un o dros 30 ar draws Cymru, yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae ganddi'r gallu i godi cyllid dyled gan gyrrff masnachol megis Barclays, rhywbeth sy'n ei gwneud yn wahanol i'r cynghorau sy'n cyflawni swyddogaeth gyfatebol.

Meddai'r Cynghorydd Hag Harris, Cadeirydd Tai Ceredigion "Mae'r Cynulliad yn benderfynol o wella safonau tai ledled Cymru ac mae'n gweld cymdeithasau tai yn elfen allweddol. Drwy ein bod yn gallu codi cyfalaf a chyllid dyled yn erbyn y portffolio eiddo gallwn roi cyfres o strategaethau cynnal a chadw a buddsoddiad ar waith yn gyflym. Y nod yw gwella'r holl gartrefi i Safon Ansawdd Tai Cymru cyn gynted ac mor effeithlon ag y bo modd. O wella safonau tai mae'n dilyn yn rhesymegol y bydd safonau iechyd a ffyniant hefyd yn gwella."

Meddai Andy Jones, Cyfarwyddwr Perthynas Barclays, "Mae Barclays yn ymroddedig i ddefnyddio ein gwybodaeth arbenigol a'n harbenigwyr yn y diwydiant i gefnogi cynigion o'r math hwn, sy'n hanfodol i economi ffyniannus. Drwy ein bod yn wir yn deall y sector tai, mae Barclays wedi gallu darparu atebion dyfeisgar i gefnogi Tai Ceredigion yn ariannol a hefyd yn broffesiynol. Fel un o grŵp bychan o arbenigwyr tai cymdeithasol wedi'u lleoli yng Nghymru rwyf yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur iawn yn 2010 wrth i drosglwyddiadau gwirfoddol eraill ar raddfa fawr fynd allan i dendr."

Aeth Hag Harris ymlaen i ddweud "Ein nod yw gwella safonau tai ar draws ein portffolio cyfan gan weithio ar y cyd â'r cymunedau lleol i sefydlu'r hyn sydd o bwys iddyn nhw. Mae 72 o staff wedi trosglwyddo'n llwyddiannus o'r cyngor i weithio i Dai Ceredigion a byddwn yn ehangu'r gweithlu i dros 100 yn fuan iawn. Mae ein cyllideb o £40 miliwn yn cynrychioli buddsoddiad anferth yn economi leol Ceredigion wrth inni wario ar welliannau y mae mawr angen amdanynt i'n cartrefi. Rydym hefyd wedi derbyn cyllid gan gronfa buddsoddiad cymunedol Barclays i greu prosiect addysg ariannol i'n tenantiaid sy'n cefnogi'n hathroniaeth o fynd i'r afael nid yn unig â

safonau tai ond hefyd â'r gwahanol faterion cymdeithasol sy'n effeithio ar ein tenantiaid."

DIWEDD